

Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru

Mai 2022

Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o adnewyddu ei Rhaglen Ddileu Twbercwlosis (TB) Buchol. Ar 28 Ebrill cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd yn canolbwyntio ar themâu ymgyngoriad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd fel rhan o'r gwaith adnewyddu, yn ymwneud â phroffion, prynu gwybodus a thaliadau. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor a'i nod yw cyfrannu at waith adnewyddu polisi'r Llywodraeth.

2. Cymerodd yr Ymchwiliad dystiolaeth lafar gan academyddion ac NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Undebau'r Ffermwyr (NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru) ac RSPCA Cymru.

3. Nododd y Pwyllgor bum maes allweddol y mae'r Aelodau'n credu y dylai'r Llywodraeth weithredu arnynt fel rhan o'r gwaith adnewyddu. Y rhain yw ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant ehangach; prynu gwybodus; profi; iawndal; a bywyd gwyllt.

Ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant ehangach

4. Un mater allweddol y tynnodd dystion sylw ato oedd yr angen i sicrhau bod ffermwyr ac eraill sy'n ymwneud â mynd i'r afael â TB buchol (gan gynnwys milfeddygon preifat ffermwyr) yn cael eu trin fel partneriaid cyfartal gan Lywodraeth Cymru wrth ddileu TB, a bod polisiau'n gofyn am gefnogaeth a pherchnogaeth ffermwyr hefyd os ydynt am lwyddo.

5. Pan holwyd yr Athro Glyn Hewinson am arferion da mewn gwledydd eraill tynnodd sylw at lywodraethu partneriaeth a rennir fel allwedd i arfer da. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn wirioneddol bwysig i gael cefnogaeth yn Seland Newydd ac Iwerddon lle mae penderfyniadau ar y cyd rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant sydd wir yn sicrhau cefnogaeth pobl, a bod hyn yn helpu i feithrin mwy o ymddiriedaeth.



6. Pan ofynnwyd am arfer gorau rhyngwladol, tynnodd Roger Lewis (NFU Cymru) hefyd sylw at ddull llywodraethu ar y cyd. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai llywodraethu yn rhywbeth y mae'n bosibl y mae rhai gwledydd wedi'i ddilyn, sef y dull llaer mwy cydlynol hwn rhwng y diwydiant a'r Llywodreth, am mwy o gyfrifoldeb, o bosibl, yn cael ei roi i'r diwydiant. Ychwanegodd, fodd bynnag, bod gan ffermwyr yn y gwledydd eraill hynny y gallu i reoli'r holl faterion sy'n ymwneud â'r clefyd gan gynnwys bywyd gwyllt.

7. Esboniodd yr Athro James Wood y byddai grymuso ffermwyr a'r diwydiant ehangach yn allweddol i sicrhau bod y polisi'n llwyddiannus:

"I think that there is good evidence from countries like New Zealand, but actually also Australia as well to an extent, that having empowered farmers and their veterinary advisers is very good for disease control. Farmers are quite good at disease control when they think they're in control, and they haven't felt like this for a long time with bovine TB. Anything that you can do to make farmers think that this is part of their responsibilities for farming, rather than being something that resides with Government or Government agencies, has to be a good thing."

8. Pwysleisiodd yr Athro Wood y byddai hyn yn anodd ei gyflawni ond bod angen meddwl yn ofalus iawn am unrhyw fesur a gyflwynir a'r effaith y gallai ei chael ar rymuso ffermwyr.

9. Mae'r Aelodau'n cefnogi'n gryf y galwadau hyn am fwy o ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd cyd-gynhyrchu a sicrhau bod ffermwyr yn teimlo eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu polisi gyda Llywodraeth Cymru yn hanfodol i gefnogi ymdrechion i ddileu TB buchol.

10. Clywodd yr Aelodau dystiolaeth fod y Gwasanaeth Cyngori ar TB yn Lloegr yn gweithio'n dda iawn. Dywedodd Dr Gareth Enticott, o Brifysgol Caerdydd, wrth yr Aelodau fod ganddo arweinwyr clir iddo, sydd allan yn y gymuned yn lledaenu neges ac yn gweithio gyda ffermwyr ac nad oedd yr un amlygrwydd i'r hyn sy'n cyfateb i hynny yng Nghymru. Dywedodd Roger Lewis o NFU Cymru fod y gwasanaeth yn uchel ei barch ac yn cynnig cyngor gwerthfawr i ffermwyr ar ffyrdd y gallant efallai liniaru'r siawns y bydd y clefyd hwn yn ymwreiddio yn eu buches. Felly, byddai rhywbeth felly yn werthfawr iawn.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn y llwybr cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu polisi'n ymwneud â dileu TB buchol.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru drin ffermwyr a'r diwydiant ehangach fel partneriaid cyfartal wrth ddatblygu polisi a sicrhau bod ffermwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso gan y cynllun dileu diwygiedig ac yn gyfrifol am ei lwyddiant.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraethau Seland Newydd ac Iwerddon er mwyn dysgu gwersi o'u llwyddiannau o ran ymgysylltu â ffermwyr a'r diwydiant ehangach

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â DEFRA fel y gall ddysgu gwersi o'r Gwasanaeth Cyngori ar TB yn Lloegr ac atgynhyrchu ei lwyddiant.

Prynu Gwybodus

11. Ar hyn o bryd agwedd wirfoddol sydd i brynu gwybodus yng Nghymru - lle mae ffermwyr yn cael eu hannog i sicrhau bod hanes profion eu buchesi ar gael wrth eu gwerthu er mwyn asesu'r lefel o risg o TB. Fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol. Ym mis Tachwedd 2019 dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wedi dechrau gweithio gyda DEFRA ar system orfodol o brynu gwybodus.

12. Esboniodd Dr Gareth Enticott fod y cwestiwn ynghylch gwneud prynu gwybodus yn orfodaeth yn un cymhleth, ond ei fod ar y cyfan yn cefnogi system lle mae'r wybodaeth ar gael i bawb. Dywedodd wrth yr Aelodau:

"There are two assumptions to the question: one, does it make a difference; and two, the mandatory aspect, does that create any harms? I think, in relation to the mandatory side of things, people will talk about, 'As soon as you do this, you create a two-tier market.' I think that already exists anyway, and farmers are operating on rumour, hearsay, local knowledge, whatever it is, in order to make their decisions. So, I don't believe that that is actually a barrier. And in fact a more equitable, fairer system would be to make that information available to everybody, so that everybody is in the same boat and some people don't have special access to some knowledge that other people don't."

13. Dywedodd yr Athro James Wood wrth y Pwyllgor:

"I think it's very important that it's not just at markets, but that the information is also available at point of purchase when private sales are being conducted, given how important private sales are in particular for local movement, and given that we know how important local movement is in the transmission of bovine TB between farms"

locally. I think making it mandatory does not mean that anyone is going to use it, and I think that's one of the greatest challenges in relation to that information. I don't know what the solution is there, but if it's not mandatory then it probably won't be available in most cases and therefore won't be useful."

14. Aeth yr Athro Glyn Hewinson ymlaen i ychwanegu ei fod wedi dod ar draws achosion wrth edrych ar y data lle mae ffermwyr yn amlwg wedi bod yn ceisio gwneud y peth iawn drwy brynu anifeiliaid o ardal risg isel, ond roedd yn anifail, mewn gwirionedd yn risg uchel mewn ardal risg isel oherwydd ei fod wedi ei symud. Felly, mewn gwirionedd, byddai cael gwybodaeth ar lefel anifeiliaid yn fwy defnyddiol na gwybodaeth ar lefel y fuches yn unig. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn credu bod gwybodaeth rydd i ganiatau prynu, mewn egwyddor, yn beth da, ond bod angen i'r data fod ar gael yn gyflym.

15. Ar y llaw arall dywedodd Roger Lewis wrth yr Aelodau ei fod y pryderu y byddai prynu gwybodus yn creu system ddwy haen:

"Because if we have a situation at the point of sale where a lot of information is divulged to the buyer, they've got to make a decision, and it'll be risk based, and that's exactly why we're thinking, or Welsh Government is thinking, to bring it in. But the reality is that, in virtually all cases, when animals get the point of sale, they do find a home. So, this is where we're coming from with regards to the two-tier market, that animals that are deemed as high risk will have a lower value. And then we've got to ask ourselves, I suppose, then: what have we achieved that day by having that information at the point of sale?"

16. Cododd bryderon hefyd am ffermydd mewn ardaloedd risg uchel, yn enwedig y rheini sydd â hanes o TB yn cael eu cosbi gan y system pan fyddant yn glir o TB buchol. Dywedodd wrth yr Aelodau er y gallai'r system helpu fferm mewn ardal lle mae nifer fawr o achosion, nad yw erioed wedi cael TB buchol, na fyddai'n helpu ffermydd lle mae'r clefyd hwn wedi ymwreiddio yn eu buchesi, ac a allai fod yn glir o'r clefyd o bryd i'w gilydd. Roedd yn credu y gallai hynny greu problemau go-iawn o ran gwerthu anifeiliaid.

17. Dywedodd Roger wrth yr Aelodau fod nifer fawr o brynwyr yn awyddus i'r wybodaeth honno fod ar gael. Yr allwedd yw ei bod yn hawdd cael gafael arni, ei bod yn gywir, ac y gall ffermwyr wneud penderfyniad yn eithaf cyflym.

18. Roedd Elin Jenkins o Undeb Amaethwyr Cymru yn rhybuddio y gallai cyflwyno prynu gwybodus achosi problemau. Dywedodd wrth yr Aelodau bod eu haelodau hefyd wedi gwneud

sylwadau bod proses brynu gwybodus, os nad yw wedi'i chymhwyso ledled y DU ac os nad yw wedi'i chymhwyso, er enghraifft, mewn marchnadoedd yn Lloegr, y bydd pobl yng Nghymru yn anfon eu hanifeiliaid i Loegr i'w gwerthu oherwydd ni fydd y gofyniad angenrheidiol hwnnw i ddangos gwybodaeth orfodol wrth werthu. Felly, mae hynny'n peryglu ein marchnadoedd da byw yng Nghymru.

19. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cronfa ddata amlywogaeth, sef EID Cymru, sy'n anelu at fod yn "system olrhain amlywogaethau effeithiol a fydd yn helpu i gyfyngu ar effaith achosion o glefydau, yn gwella data ac yn parhau i roi sicrwydd i ddefnyddwyr ynglŷn â tharddiad eu bwyd."

20. Dywedodd yr Athro Glyn Hewinson wrth y Pwyllgor ei fod o'r farn y byddai EID yn hollol allweddol i helpu ffermwyr i ddeall y risg o anifeiliaid penodol – yn hytrach na risg y fuches. Fodd bynnag, rhybuddiodd ei bod yn bwysig iawn wrth ystyried defnyddio'r wybodaeth hon am symud anifeiliaid a'r holl ddata o hynny am yr anifeiliaid—ac awgrymodd y byddai hynny mewn canolfan ganolog—fod y system yn berthnasol i bob anifail ar draws yr uned epidemiolegol, sef Prydain Fawr. Felly, mae'n bwysig iawn bod EID Cymru yn cysylltu â'r gwaith ar y Rhaglen Gwybodaeth Da Byw sy'n digwydd yn Lloegr a'r system symudiadau anifeiliaid yn yr Alban.

21. Cododd Dr Gareth Enticott bryderon hefyd ynghylch ymwahanu systemau olrhain anifeiliaid. Dywedodd wrth yr Aelodau nad yw'r clefyd yn deall ffiniau, a bod cronfeydd data sy'n gweithio ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, ac y gallai pob gwlad yn y pen draw fynd i gyfeiriadau ychydig yn wahanol a hynny'n achosi problemau.

22. Roedd y ddau undeb ffermwyr hefyd yn cefnogi cyflwyno EID Cymru. Fodd bynnag, roedd ganddynt hwythau bryderon ynghylch cydnawsedd rhwng gwahanol weinyddiaethau'r DU.

23. Dywedodd Roger Lewis wrth yr Aelodau:

"If we're moving away from BCMS [British Cattle Moving Service], which I found to be a very, very good portal, and if we're going to move to EID Cymru, I think the potential for this is huge, and not just as a database for the actual animals' ID and movement history et cetera, but for health statuses. And, obviously, TB falls into that. Infectious bovine rhinotracheitis, bovine viral diarrhoea and a lot of other diseases need to be, sort of, bolted on to this. And the key thing is that this software is set up at the start to be able to cope with all of this. All too often we have systems built that then we're told can't cope with this change or you've got to start from scratch. So, this is where we're coming from. EID Cymru must be compatible from day one with all this

information. Even if it's actually not used on day one, it needs to have the ability to cope with this process. And yes, it is the obvious portal for this sort of information to come from."

24. Ategodd Elin Jenkins y pryderon ynghylch cydnawsedd trawsffiniol. Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod yn bwysig bod yna gyfathrebu trawsffiniol rhwng fersiynau Cymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon o EID Cymru.

25. Mae'r Pwyllgor yn credu os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno pryniant gwybodus ar sail gorfodol, rhaid ei wneud yn gywir i sicrhau nad yw'n achosi problemau i ffermwyr, yn enwedig y rheini sydd mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion o TB buchol. Fel rhan o hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod data o ansawdd uchel yn cael eu defnyddio wrth adeiladu'r system i sicrhau bod y system yn gywir, a rhaid i'r data fod ar gael yn gyflym pan fo angen. O ystyried masnach drawsffiniol, mae Aelodau hefyd yn pryderu am gyflwyno unochrog yng Nghymru os na chaiff y system ei chyflwyno yn Lloegr.

26. Mae'r Aelodau o'r farn y gallai EID Cymru fod yn arf defnyddiol a phwerus i ffermwyr a fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus wrth brynu anifeiliaid. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n pryderu am gapasiti'r system a'i gallu i weithredu gyda systemau eraill ledled y DU. Mae'r Aelodau'n credu ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod EID Cymru yn addas i'r diben ar y diwrnod cyntaf gyda'r gallu i ryngweithredu â'r systemau eraill ledled y DU.

Argymhelliad 5. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno prynu gwybodus ar sail gorfodol, rhaid i'r system fod yn seiliedig ar ddata cywir o ansawdd uchel y mae angen eu darparu'n gyflym mewn system sy'n gweithio.

Argymhelliad 6. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno prynu gwybodus, dylai weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno systemau cydnaws yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd oherwydd bod anifeiliaid yn cael eu symud ar draws ffiniau.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod EID Cymru yn gywir, y gall gadw gwybodaeth am yr holl glefydau perthnasol a'i fod yn gydnaws â systemau a ddefnyddir ledled y DU.

Profion

27. Defnyddir Profion Cyn (PrMT) ac Ar Ôl (PoMT) Symud i helpu i leihau lledaeniad y clefyd drwy symud gwartheg. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod o'r farn bod PrMT a PoMT yn fesurau hanfodol ac mae'n cynnig ehangu'r gofynion. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud bod "*achos*

cryf^a dros gynyddu sensitifrwydd PrMT, a'r cyfaddawd fyddai gostyngiad mewn penodoldeb - adnabod gwartheg heintiedig yn well ond rhagor o ganlyniadau positif anghywir.

28. Dywedodd yr Athro James Wood wrth yr Aelodau mai Cymru a Lloegr sy'n defnyddio'r profion lleiaf sensitif fel profion sgrinio o unrhyw wledydd yn y byd, ac mai ni yw'r gwledydd sydd â rhai o'r heriau mwyaf o ran TB buchol—heriau parhaus—a'i farn yw bod y ddau bwynt yn gysylltiedig. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"I think it's very important to recognise the key role that testing can play, and actually in the need that we have across Britain, not just in Wales, for increasing the sensitivity of testing, in particular when you have identified infection on herds or perhaps small clusters of infection."

29. Clywodd y Pwyllgor na fyddai cynyddu profion yn cael yr effaith orau o ran dileu'r clefyd os na ddefnyddir y prawf cywir, ac y gellid cael rhagor o fiwrocratiaeth heb fawr o ganlyniad. Rhybuddiodd Elin Jenkins yr Aelodau yn erbyn symud i ddefnydd cyffredinol o brofion gama, sy'n brawf mwy sensitif, gan y bydd yn arwain at 3.5 y cant o ganlyniadau positif anghywir mewn anifeiliaid heb TB, a fyddai'n cynyddu nifer yr anifeiliaid a gaiff eu symud o ffermydd a mwy o iawndal o ganlyniad. Ychwanegodd nad oedd hi'n credu bod unrhyw dystiolaeth neu ddadansoddiad gwyddonol neu asesiad effaith sydd wedi'i wneud ar ddefnyddio'r prawf gama yn gyffredinol yng Nghymru, nac yn unman arall, mewn rhaglen ddileu ledled y byd.

30. Cododd NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru bryderon am effaith economaidd-gymdeithasol PoMT. Dywedodd Roger Lewis wrth yr Aelodau bod yr NFU yn credu'n gryf ei bod yn gwbl hanfodol bod y strwythur cyn ac ar ôl symud yn gryf ac yn gadarn. Mae'n credu eu bod yn bendant y tu ôl i ailgyflwyno profion cyn symud yn yr ardaloedd lle mae nifer isel o achosion ond bod profion ar ôl symud yn gwestiwn sy'n peri ychydig mwy o rwyg ymysg yr aelodaeth, ac nad oedd PoMT bob amser yn ymarferol.

31. Dywedodd Elin Jenkins wrth y Pwyllgor fod aelodau Undeb Amaethwyr Cymru wedi nodi rhinweddau profion cyn ac ar ôl symud. Ond bod ganddynt, fodd bynnag, bryderon ynghylch y diffyg tystiolaeth epidemiolog go iawn o ran cefnogi'r angen am hyn, a pha mor effeithiol neu gost-effeithiol ydyw, a faint o ddylanwad y bydd y profion hyn yn ei gael ar ddileu TB yng Nghymru, neu o leiaf gadw TB allan o ardaloedd yng Nghymru lle mae llai o achosion.

32. Dywedodd yr Athro Glyn Hewinson wrth y Pwyllgor bod mater cost a budd i'w gydbwysu o ran canlyniadau positif/negatif anghywir a bod angen ystyried manteision hirdymor lleihau clefydau:

"there is absolutely an economic impact in terms of when you spread disease out of a herd and create new areas of infection. The cost-benefit analysis—and this comes to your question earlier about proportionality—is very difficult, so when people look at cost and benefit, they often just look at the cost, rather than the long-term benefit. Of course, stopping disease is very hard to monetarise, but, obviously, from a disease control perspective, you want to try and stop disease spreading out of a herd"

33. Er bod y Pwyllgor mewn egwyddor yn cefnogi cynyddu profion cyn ac ar ôl symud a sensitifrwydd y profion a ddefnyddir, mae'r Aelodau'n pryderu'n fawr am yr effaith economaidd-gymdeithasol bosibl. Cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gynyddu profion a sensitifrwydd profion, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried effaith economaidd-gymdeithasol lawn y symudiadau.

34. Mae'r Aelodau'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddeall effaith lawn, hirdymor y gyfundrefn brofi, gan gynnwys effeithiau economaidd-gymdeithasol mwy o brofion a'r defnydd o brofion sensitifrwydd uwch neu is. Mae'r Aelodau'n gobeithio y bydd gwneud y gwaith hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad economaidd-gymdeithasol gwybodus, yn cefnogi ffermwyr yr effeithir arnynt ac yn eu tro yn cynyddu 'cefnogaeth' ffermwyr i'r cynllun newydd.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith economaidd-gymdeithasol manwl o unrhyw newidiadau i'r drefn profi TB. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn gael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Argymhelliad 9. Wrth gynnal ei hasesiadau effaith ar brofion, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar yr effaith hirdymor, gan gynnwys yr angen parhaus i ddigolledu ffermwyr am wartheg a gaiff eu symud i'r dyfodol.

Prinder milfeddygon

35. Mae'r DU ar hyn o bryd yn wynebu prinder milfeddygon. Nid yw'r prinder yn gyfyngedig i brofion TB, na'r sector ffermio. Clywodd y Pwyllgor bryder fod hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ffermydd a phrofi am TB.

36. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod ei aelodau wedi cael eu cosbi o'r blaen oherwydd diffyg personél ac adnoddau milfeddygol, ac aeth ymlaen i ddweud bod yn rhaid i adnoddau ychwanegol fod ar waith cyn cyflwyno unrhyw gynnydd o ran gofynion profi.

37. Clywodd yr Aelodau y gallai defnyddio profwyr lleyg fod yn opsiwn i greu capasiti profi. Dywedodd yr Athro Glyn Hewinson wrth yr Aelodau mai'r hyn sy'n werth ymchwilio iddo yn ei farn ef yw'r defnydd o brofwyr lleyg, a allai helpu i gefnogi'r profion cynyddol sy'n cael eu hawgrymu. Efallai y bydd rhai practisau'n croesawu hynny, efallai na fydd eraill, ac efallai bod angen dull cyfunol yma yng Nghymru, o ddefnyddio profwyr lleyg ynghyd â milfeddygon i gynnal y profion TB, a gall hynny fod yn ffordd o ehangu'r capasiti sydd gennym. Ychwanegodd yr Athro James Wood:

"Lay testers have to work as part of a veterinary team and, indeed, there is real scope for faster introduction of greater numbers of lay testers. They don't require four, five or six years of veterinary training and registration, but they do need very specific and very careful training. I think there are real advantages to be explored with that" ... "I think, generally speaking, the lay testers are only able to do the skin testing and are typically not used for the collection of blood samples necessary for the gamma interferon test. So, greater use of that is going to be constrained by veterinary capacity and by the laboratory capacity needed to develop that as well."

38. Rhoddodd Dr Gareth Enticott esboniad nad yw profion TB yn waith deniadol i filfeddygon. Ychwanegodd y gallai cyflwyno profion lleyg helpu i gefnogi'r gobaith o gadw milfeddygon yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ond rhybuddiodd hefyd efallai na fyddai pob practis milfeddygol yn croesawu'r syniad o brofwyr lleyg.

39. Mae'r NFU ac Undeb Amaethwyr Cymru yn cefnogi'r defnydd o brofwyr lleyg. Roedd y ddau yn teimlo y gellid defnyddio hyn i ryddhau milfeddygon preifat ffermydd i gefnogi ffermwyr sydd yng nghanol achosion o TB. Dywedodd Elin Jenkins o Undeb Amaethwyr Cymru ei bod yn teimlo y dylai ffermwyr a'r diwydiant fod yn rhan o'r broses o ddewis ble roedd unrhyw arian a wneir drwy ddefnyddio profwyr lleyg yn cael ei wario.

40. Roedd yr Aelodau'n arbennig o bryderus o glywed bod ffermwyr wedi cael eu cosbi o ganlyniad i ddiffyg adnoddau milfeddygol ac yn teimlo bod hwn yn fater y mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw iddo ar frys. Nododd yr Aelodau fod yr holl dystion y cawsant dystiolaeth ganddynt o blaid defnyddio profwyr lleyg, ac felly maent yn teimlo bod hwn yn llwybr y dylai Llywodraeth Cymru ei archwilio fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, maent yn nodi y bydd angen i ffermwyr a'r milfeddygon fod yn rhan o'r broses o'u cyflwyno – ac efallai y bydd angen dull cyfunol a fydd yn gweddu i'r holl anghenion.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno profwyr TB lleyg gyda'r diwydiannau ffermio a milfeddygol.

Iawndal

41. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn talu iawndal i ffermwyr yn seiliedig ar gyfradd y farchnad am bob anifail a gaiff ei ladd o ganlyniad i haint TB. Mae iawndal am TB yn faes lle mae gorwario'n digwydd yn rheolaidd o ran Llywodraeth Cymru ac mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud nad yw'n "gynaliadwy". Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r opsiynau a ganlyn i gymryd lle'r system bresennol:

- system brisio dablaidd lle defnyddir pris cyfartalog y farchnad i gyfrifo iawndal;
- system brisio dablaidd gyda chynnydd yn y taliad yn seiliedig ar aelodaeth o gynllun cymeradwy ar gyfer achredu iechyd anifeiliaid; neu
- taliadau a bennir gan grŵp annibynnol o dan arweiniad y diwydiant. Byddai ardoll y diwydiant yn rhannol-ariannu costau taliadau TB.

42. Clywodd y Pwyllgor wrthwynebiad cryf gan NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru i'r system iawndal dablaidd. Cafodd Roger Lewis wartheg yn ynysu oherwydd profion positif ar yr adeg y rhoddodd dystiolaeth ac aeth â'r Aelodau drwy gostau ariannol ac economaidd sylweddol hynny iddo. Dywedodd wrth yr Aelodau:

"to move to a system that will overvalue, and undervalue—let's not forget that—going forward, would be devastating for this industry. So, our preferred compensation payment regime is the one that is in place now, where a valuer, a trained professional, comes along and gives a value for that individual animal."

43. Mynegodd Elin Jenkins gydymdeimlad â sefyllfa Roger Lewis a dywedodd wrth y Pwyllgor bod y drefn brisio bresennol, sy'n defnyddio arbenigwr annibynnol yn y diwydiant i greu prisiau, yn llawer tecach na'r system dablaidd arfaethedig. Ond, wedi dweud hyn, fel y cyfeiriodd Mr Lewis ato, mae'r system iawndal bresennol ymhell o fod yn berffaith, heb unrhyw iawndal am golli refeniw, colli cynhyrchu llaeth, colli llinellau bridio, ac yn y blaen.

44. Dywedodd RSPCA Cymru fod y tri chynnig ar gyfer iawndal yn rhesymol. Roedd o'r farn y byddai'r opsiwn grŵp o dan arweiniad y diwydiant yn ffordd o roi mwy o reolaeth i ffermwyr ac annog cymunedau i gyryd cyfrifoldeb. Dywedodd hefyd y dylai presenoldeb cynllun cadarn, a chydymffurfio â'r cynllun fod yn rhag-amod i dderbyn iawndal a ariennir gan y wladwriaeth.

45. Roedd Dr Gareth Enticott yn cwestiynu'r nod o newid cyfraddau iawndal os mai'r nod yw arbed arian a gwneud pethau'n gyflymach ac yn symlach, yna gall fod yn berffaith ar gyfer hynny, ond bod trafodaeth yn digwydd hefyd am ddefnyddio iawndal fel math o gymhellant

neu newid mewn gwerthoedd iawndal i ddaddgymell ymddygiadau penodol. Teimlai y gallai fod yn ffordd well, neu'n fwy defnyddiol, o feddwl sut y defnyddir iawndal i'w droi o gwmpas a sut y gellir defnyddio iawndal fel gwobr. Ailadroddodd ei bwynt hefyd y bydd yn hanfodol sicrhau bod ffermwyr yn teimlo'n rhan o'r system a bod y system yn deg.

46. Cefnogodd yr Athro Glyn Hewinson yr alwad am ddefnyddio iawndal fel gwobr. Dywedodd wrth yr Aelodau bod angen taro'r man iawn o ran iawndal, lle na chaiff pobl eu cymell i ffermio TB, ond, eu bod, yn yr un modd, yn cael eu gwobrwyo'n ddigonol i gydymffurfio â'r systemau sydd ar waith i reoli clefydau. Roedd yn credu mai'r dystiolaeth ar hyn o bryd yw bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn cydymffurfio â hynny.

47. Mae'r Aelodau'n deall bod y rhaglen iawndal bresennol yn ddrud. Rhaid i'r gwaith adnewyddu cyffredinol ar y rhaglen leihau nifer y gwartheg sydd angen eu difa ac o ganlyniad lleihau'r gost hon. Mae'r Aelodau'n cefnogi'r galwadau am ddefnyddio taliadau iawndal fel gwobr am arferion ffermio da o fewn y system. Mae'r Aelodau hefyd yn teimlo y bydd sicrhau cefnogaeth ffermwyr i unrhyw system newydd yn hanfodol i'w llwyddiant, yn unol â barn y Pwyllgor a nodir o dan adran ymgysylltu'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio taliadau iawndal TB i wobrwyo arferion ffermio da.

Argymhelliad 12. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis cyflwyno system dablaid, rhaid iddi sicrhau nad yw ffermwyr sy'n magu gwartheg uchel eu gwerth (e.e. pedigri) yn cael eu trin yn annheg ac nad ydynt ar eu colled.

Bywyd Gwyllt

48. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y diffyg data o ran rôl bywyd gwyllt wrth ledaenu TB. Dywedodd Roger Lewis wrth y Pwyllgor:

"We get the message from Welsh Government with regards to culling here in Wales, but what I struggle with, and I think the farmer who was depopulated the other day will struggle with, is that he potentially could restock his farm in a period of time, but he doesn't know [...]the level of disease that is out there within the wildlife. And the absolute minimum Welsh Government should be doing is finding a policy whereby we can establish the level of disease in the wildlife. The badger found dead survey is one way of doing it, but it is not comprehensive enough. And I think they're missing a trick here, because if you had a farm, a persistent breakdown farm, and you could prove to that farmer that, actually, the wildlife on his farm are clean, or have very low levels of

“TB, I think that the attitude of that farmer would change, because he would know that the actual problem is embedded within his herd, and the way he approaches future testing would change.”

49. Dywedodd yr Athro James Wood wrth y Pwyllgor o ran y mater o fywyd gwyllt y cyfeirir ato'n aml fel, *'Ni allwch reoli'r clefyd heb fynd i'r afael â'r gronfa'* ond nad yw'r broblem yn un syml gan na wyddom ar hyn o bryd pa mor bwysig yw moch daear ar gyfer trosglwyddo TB buchol.

50. Cafodd y mater ynghylch data ei grynhai gan Rober Lewis a ddywedodd mai'r rhwystredigaeth wirioneddol iddo ef a'i gyd-ffermwyr yw'r diffyg dealltwriaeth o sut mae'r clefyd hwn yn cael ei drosglwyddo. Hynny yw, roedd yn golygu trosglwyddo rhwng gwartheg, rhwng bywyd gwyllt a gwartheg, ac o fewn y boblogaeth bywyd gwyllt hefyd. Roedd yn anodd ganddo gredu nad yw'r wyddoniaeth gadarn am hynny ar gael, yn 2022.

51. Dywedodd Roger Lewis y dylem fod yn edrych ar frechu moch daear fel ffordd o liniaru'r clefyd hwnnw ac y gallwch gael imiwnedd y fuches heb frechu'r boblogaeth moch daear gyfan. Aeth ymlaen i ddweud, fodd bynnag, mai'r broblem yma yng Nghymru yw bod gennym boblogaeth mor enfawr o foch daear fel bod brechu'n mynd yn aneconomaidd.

52. Roedd RSPCA Cymru'n croesawu'r ffocws ar wartheg yn y cynigion yn hytrach nag ar foch daear. Dywedodd fod y clefyd yn cael ei ledaenu'n bennaf rhwng gwartheg ac ystyrir mai symud gwartheg yw'r prif risg o ran trosglwyddo.

53. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg data ynghylch TB buchol mewn bywyd gwyllt. Hoffai'r Aelodau i'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r data cyfredol sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch TB buchol mewn bywyd gwyllt ac unrhyw fwriad i gasglu data pellach.

54. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda ffermwyr i gasglu gwell gwybodaeth leol am heintiau mewn bywyd gwyllt. Dylai hyn gynnwys, yn arbennig, casglu data ar lefel yr heintiau ar dir fferm lle mae achosion ar y fferm.

55. Mae gan y Pwyllgor ddi-ddordeb yn yr ymchwil y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud. Mae'r Aelodau'n arbennig o awyddus i brofi barn y Llywodraeth ynghylch pa mor economaidd yw brechu moch daear.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor gan nodi:

- A yw'r Gweinidog yn teimlo bod ganddi'r lefel gywir o ddata o ran nifer yr achosion o TB buchol mewn bywyd gwyllt er mwyn canfod pa mor eang y mae angen i'r rhaglen frechu moch daear fod;
- Barn y Gweinidog ynghylch pa mor economaidd yw brechu moch daear; ac
- Unrhyw ddadansoddiad o gost brechu moch daear (os caiff ei gynnal) neu gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwn.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gynnal astudiaeth er mwyn gwella gwybodaeth ynghylch sut y caiff TB buchol ei drosglwyddo rhwng gwartheg a bywyd gwyllt, rhwng bywyd gwyllt a gwartheg ac o fewn y boblogaeth bywyd gwyllt.